Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pencoed
Yr Hen Glinig
Heol Penprysg
Pencoed
CF35 6SS

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Pencoed

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pencoed |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Juliet Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Juliet Jones a Sarah Griffith |
| Nifer y lleoedd | 36 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 3 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 12 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:15yb – 4:00yp yn ystod tymor ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r ddarpariaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer yr iaith Gymraeg. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 31/01/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 15/06/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/01/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Saesneg yw prif iaith y cartref ar gyfer bron pob un plentyn. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Digonol |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Digonol |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg y plant

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd effeithiol i hybu annibyniaeth y plant

A3 Gwella’r cynllunio i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn systematig ar draws y meysydd dysgu

A4 Addasu trefn y dydd i sicrhau bod gweithgareddau yn cadw diddordeb y plant ac yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu’u lles a’u dysgu

A5 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant i sicrhau eu bod yn canolbwyntio’n drylwyr ar ansawdd yr addysgu a datblygiad medrau plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd yn yr awyr agored, mae'r rhan fwyaf yn dewis ble i chwarae, gan symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gyfrannu syniadau at themâu yn ôl eu diddordebau. Er enghraifft, mae diddordeb y plant mewn tegan mwnci wedi dylanwadu'n gryf ar yr ymarferwyr yn dewis thema'r jyngl.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Mae ychydig iawn o blant sydd yn ansicr wrth gyrraedd yn fodlon yn cael eu cysuro gan yr ymarferwyr cyn ymgyfarwyddo â'r drefn ddyddiol. Mae bron pob un plentyn yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn ymateb yn briodol i'w hangenion.

Mae llawer o blant yn ymddwyn yn dda yn ystod chwarae rhydd ac yn ystod cyfnodau grŵp. Maent yn dangos amynedd a chwrteisi am gyfnod estynedig wrth aros am fyrbryd, er enghraifft. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gydweithio'n effeithiol i ddewis gwrthrychau i addurno brigau coed.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, fel chwarae gyda thoes i greu siapiau diddorol a chreu castell allan o dywod yn y gegin fwd. Mae'r mwyafrif yn dyfalbarhau â'u tasgau'n briodol ac yn ymateb yn addas i anogaeth gan ymarferwyr.

Mae bron pob un plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ysgogol. Mae ganddynt fedrau hunangymorth da ac yn golchi eu dwylo a brwsio'u dannedd gyda chymorth cyfyngedig gan oedolion. Pan gânt y cyfle, mae'r mwyafrif yn datblygu eu medrau annibynniaeth yn briodol, er enghraifft wrth wisgo cotiau i fynd allan i'r ardal allanol. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn rhy ddibynnol ar gymorth oedolion er mwyn cwblhau tasgau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Yn gyffredinol, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau o'u mannau cychwyn.

Mae llawer o blant yn gwrando'n briodol yn ystod gweithgareddau. Mae'r mwyafrif yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth addas o'r iaith Gymraeg ac mae ychydig yn

ailadrodd geirfa syml yn gymwys wrth gael eu hannog gan oedolion. Fodd bynnag, ychydig yn unig sy'n ymateb yn ddigon hyderus i gyfarwyddiadau newydd ac mae llawer yn disgwyl am gyfarwyddiadau Saesneg cyn ymateb. Mae llawer o blant yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn awyddus i weld beth sy'n digwydd nesaf yn y stori. Mae lleiafrif yn dechrau trin llyfrau yn briodol, er dim ond ychydig o blant sy'n dewis darllen storïau'n annibynnol. Mae llawer o blant yn creu marciau yn bwrpasol yn ystod gweithgareddau. Maent yn dal offer ysgrifennu yn gywir ac yn dechrau creu marciau ar gyfer pwrpas, er enghraifft wrth olrhain cysgod o anifail ar ddarn o bapur mawr.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn briodol. Maent yn cyfrif i ddeg yn lled hyderus ac yn cyfrif gwrthrychau hyd at bump gyda chymorth. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod patrymau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfatebu patrymau ar groen anifeiliaid gyda'r un patrwm sydd ar eu cartrefi. Mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir yn Saesneg fel 'bach' a 'mawr' wrth wehyddu gwrthrychau ar frigau.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau datrys problemau priodol, er enghraifft wrth arbrofi gyda gwrthrychau i weld os ydynt yn arnofio neu'n suddo yn y dŵr.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o blant yn datblygu'n raddol. Maent yn dechrau arbrofi gydag ystod gyfyng o adnoddau TGCh yn briodol, er enghraifft wrth ddechrau gwneud dewisiadau ar wahanol apiau. Mae'r lleiafrif yn dechrau rhoi cyfarwyddiadau syml i degan rhaglenadwy yn addas o dan gyfarwyddyd oedolyn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol cryf, er enghraifft drwy gicio peli i mewn i'r cylchoedd a chydbwyso ar smotiau yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf yn cryfhau eu medrau mudol mân yn llwyddiannus gan ddefnyddio ystod eang o gyfarpar gan gynnwys hoelio ti golff i mewn i bwmpen.

Mae llawer o blant yn defnyddio eu medrau creadigol yn llwyddiannus ar draws yr ardaloedd dysgu. Maent yn dechrau arbrofi'n dda gyda gwahanol offerynnau cerdd er mwyn creu synau i gyfleu ystyr.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a chyfrifoldebau ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus, er enghraifft trwy frwsio dannedd yn ddyddiol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod byrbrydau a diodydd iach ar gael i'r plant. Trwy arferion pob dydd, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant

wneud ymarfer corff ac i chwarae tu allan, er enghraifft drwy yrru beiciau yn yr ardd. Mae gweithdrefnau ac arferion hylendid y lleoliad yn dda iawn ac anogir plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol. Maent yn fodelau da o ymddygiad, yn gyson garedig ac yn atgoffa plant yn rheolaidd i rannu teganau ac i barchu ei gilydd. Rhoddir anogaeth a chefnogaeth effeithiol i'r plant ddatrys unrhyw wrthdaro eu hunain. Mae ymarferwyr yn eu canmol yn gyson sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu hunanhyder y plant.

Darperir cyfleoedd cyfoethog i blant ddysgu am bwysigrwydd gofalu am bethau byw, er enghraifft trwy dyfu planhigion yn yr ardd. Maent hefyd wedi dysgu am sut i ofalu am gywion bach a cheffylau'r heddlu wrth iddynt ymweld â'r lleoliad.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth asesu'n grefftus i adnabod plant sydd angen cymorth ac i drefnu darpariaeth addas ar eu cyfer. Mae ymarferwyr yn cydwweithio ag asiantaethau allanol yn effeithiol i gefnogi plant yn ôl yr angen, er enghraifft trwy dderbyn cyngor gan y therapydd lleferydd i gynorthwyo plant ag anawsterau iaith a lleferydd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro'n rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth gan eu bod yn tueddu gwneud gormod drostynt.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb llawer o blant yn llwyddiannus. Ategir hyn yn effeithiol drwy nifer o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, ar ôl darganfod draenog yn yr ardal allanol, mae ymarferwyr wedi trefnu iddo gael triniaeth ac i'w ryddhau nôl i'w gynefin gyda'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cyfrannu'n bwrpasol i gyd-gynllunio cwricwlwm diddorol sy'n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn briodol. Maent yn ystyried llais y plant yn effeithiol fel rhan o'r broses. Mae ganddynt drefniadau asesu synhwyrol sy'n eu galluogi i olrhain cynnydd y plant yn dda ac i adnabod bylchau yn y dysgu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o asesiadau blaenorol a fframwaith y cyfnod sylfaen i gynllunio gweithgareddau penodol i ddatblygu medrau'r plant yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n darparu digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws yr ardaloedd dysgu.

Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi newid strwythur y diwrnod i roi mwy o gyfleoedd i blant arbrofi a datblygu eu medrau yn fwy annibynnol tu fewn yr adeilad ac yn yr ardal allanol. Fodd bynnag, mae sesiynau grŵp yn tueddu bod yn rhy hir ac nid oes ganddynt ddigon o ffocws ar ddatblygu medrau penodol. O ganlyniad, mae llawer o

blant yn aflonyddu ac yn colli diddordeb yn ystod y sesiynau hyn. Yn gyffredinol, nid yw'r drefn ddyddiol yn cyfrannu'n ddigon effeithiol at ddatblygu elfennau o les a medrau'r plant o bob oedran.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas waith gynhaliol gyda'r plant. Yn yr arferion gorau, mae ymarferwyr yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn bwrpasol, er enghraifft wrth fodelu iddynt sut i ysgrifennu rhestr siopa yn yr ardal chwarae rôl. O ganlyniad, mae'r plant yn efelychu model yr ymarferydd ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Er bod llawer o'r ymarferwyr yn holi'r plant yn addas yn y Gymraeg, mae'r diffyg hyder sydd ganddynt ynglŷn â'r iaith a'r parodrwydd i droi i Saesneg yn cyfyngu datblygiad y plant a'u gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae'r lleoliad yn cynllunio profiadau cyfoethog i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, maent yn codi ymwybyddiaeth y plant o bobl sy'n llai ffodus na nhw yn y byd drwy drefnu casgliad ar gyfer y banc bwyd lleol. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am draddodiadau Cymreig drwy ddathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi a gweithgareddau ar gyfer y 'Diwrnod Shwmae'.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer y plant mewn adeilad pwrpasol, sydd wedi ei gynllunio i annog plant i ddysgu a datblygu'n effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel trwy weithredu polisïau a gweithdrefnau priodol.

Mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth gadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn gwneud asesiadau risg dyddiol o'r ardaloedd tu fewn a thu allan i'r adeilad er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer defnydd y plant. Caiff ymarferwyr eu defnyddio yn effeithiol i oruchwylio plant yn ystod gweithgareddau i sicrhau eu diogelwch. Mae ganddynt weithdrefn effeithiol ar ddiwedd y sesiwn i sicrhau bod y plant yn gadael gyda rhieni neu ofalwyr cydnabyddedig.

Mae'r safle'n lân ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda iawn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, er enghraifft trwy wisgo dillad amddiffynnol i baratoi a gweini byrbrydau. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn ysgogol ar gyfer oedran y plant. Mae trefn yr adeilad yn caniatáu i'r plant symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau effeithiol o ran eu chwarae. Caiff lles plant ei hyrwyddo trwy ddewis da iawn o deganau ac offer yn yr ystafelloedd chwarae ac yn yr ardaloedd awyr agored. Mae'r gwaith ar wella'r ardal allanol yn ddiweddar yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i blant arbrofi a chwarae yn yr awyr agored. Yn gyffredinol, mae adnoddau yn cael eu cadw'n synhwyrol mewn blychau lefel isel wedi'u labelu. Mae hyn yn galluogi plant i estyn a defnyddio adnoddau yn annibynnol. Er hyn, nid yw'r ymarferwyr bob tro'n rhoi ystyriaeth lawn i osod adnoddau mewn ardaloedd dysgu er mwyn hyrwyddo

medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol. Mae gan y lleoliad ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r ystafell synhwyrau yn effeithiol ar gyfer plant sydd angen ymlacio mewn awyrgylch tawel a diogel.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae gan y person cofrestredig a'r person mewn gofal weledigaeth gadarn ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar greu ethos gofalgar ac awyrgylch ysgogol ar gyfer y plant. Maent yn rhannu hyn yn llwyddiannus gyda staff, rhieni a'r gymuned. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer cyflogi a recriwtio staff. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n sicrhau bod gan yr holl staff y medrau iaith angenrheidiol i ymateb i gyfrwng iaith y lleoliad. Mae arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau ymysg y staff yn bwrpasol ac mae'r staff yn gweithredu ar y rhain yn gydwybodol. Er enghraifft, mae'r drefn wythnosol yn sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau'n glir.

Rhennir gwybodaeth gyda staff yn briodol drwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae hyn yn galluogi pob aelod o staff i gyfrannu at y broses gynllunio yn effeithlon. Mae trefniadau addas ar waith i sicrhau goruchwyliaeth staff. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau'n galluogi staff i fyfyrio ar eu perfformiad ac i drafod eu hanghenion datblygu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn gwneud defnydd digon effeithiol o'r prosesau i dargedu blaenoriaethau ar gyfer gwella, fel agweddau o'r addysgu. Nid yw'r person mewn gofal neu'r person cofrestredig sydd yn gweithredu fel ymarferydd ar adegau yn derbyn unrhyw oruchwyliaeth ffurfiol er mwyn datblygu eu medrau nhw.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer hunanwerthuso ac mae arweinwyr yn ystyried barn rhieni, staff, plant ac asiantaethau allanol fel rhan o'r broses. Yn ddiweddar iawn, maent wedi ailddechrau'r broses o arsylwadau unigol er mwyn dechrau adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant yn yr addysgu. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hunanwerthuso yn galluogi arweinwyr i adnabod y mwyafrif o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r gweithdrefnau yn ddigon trylwyr i adnabod yr holl feysydd sydd angen eu gwella, fel y defnydd o'r iaith Gymraeg a strwythur y diwrnod. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r cynlluniau datblygu yn addas i wella ychydig o flaenoriaethau, fel datblygu'r ardal allanol ar gyfer y plant.

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau plant. Mae partneriaeth gref yn bodoli rhwng y rhieni a'r lleoliad, gyda threfniadau gwerthfawr ar waith fel cylchlythyron a hysbysfwrdd sy'n hysbysebu rhieni o waith a digwyddiadau'r lleoliad yn effeithiol. Mae rhieni yn cael cyfleoedd buddiol i ymweld â'r lleoliad gyda'u plant cyn dechrau. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r lleoliad yn esmwyth ac yn ymgartrefu'n gyflym.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2019